

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Talybont
ar nos Iau 13 Ebrill, 2017 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd David Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Alun Thomas

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Kevin Williams

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Sedd yn Corbri: angen ei thrwsio. Cyng. Kevin Williams a Dafydd Jones wedi ei phaentio, ond angen 1 côt arall. Disgwyl tywydd sych/braf.

Pont Tŷ Slatars: arwydd 'private road' yn gamarweiniol ac yn cyfeirio cerddwyr y ffordd anghywir. Cyngor Gwynedd wedi ymweld a'r safle, ac nid yw'n bosib iddynt osod arwydd ychwanegol/gwahanol gan bod y ffordd yn breifat.

Llwybr Tan y Marian hyd at fferm Penybryn: gordyfiant angen ei glirio cyn gynted a phosib. Y Cyng. Margaret Fernley am gysylltu gyda'r contractwr a'i gyfarfod ar y safle.

Cynllun grantiau 'Bags of help' : penderfynwyd edrych ar y meini prawf er mwyn darganfod sut fath o brosiectau sy'n gymwys am grant.

5. Taliadau

Dim taliadau i'w awdurdodi.

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd-llythyr gan Un Llais Cymru ynglŷn a aelodaeth blyneddol. Penderfynwyd nad oedd y Cyngor yn dymuno bod yn aelod.

Cyflwynwyd- llythyr gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y Cyngor Cymuned os am fod yn rhan o'r cynllun ad-dalu costau am waith cynnal llwybrau yn ystod 2017-18. Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i fod yn rhan o'r trefniant.

Cyflwynwyd- llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri-dyddiadau i'r dyddiadur-cyfarfodydd blyneddol gyda Cyngorau cymuned yr ardal. Lleoliadau i'w cadarnhau. Nodwyd yr ohebiaeth.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Materion Mynydd – yn dilyn cyfarfod diweddar, adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cymryd eu swyddogaeth fel landlord y Carneddau yn ddifrifol, ac am ysgrifennu at bawb i egluro eu bod yn monitro'r sefyllfa pori ar y Carneddau.

8. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim ceisiadau i'w ystyried.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau wedi eu derbyn.

9. Materion brys

Ystâd Penrhyn – adroddwyd bod polion wedi ymddangos o gwmpas yr ardal.

Penderfynwyd bydd y Cyng. Margaret Fernley yn cael sgwrs i weld beth yw pwrpas y polion.

Bws Rhif 66 drwy Talybont – adroddwyd bod y gwasanaeth yma yn cael ei ddiddymu, heb gysylltu gyda'r trigolion o gwbl. Penderfynwyd ysgrifennu at Arriva a'r Cynghorydd Sir gan bod llawer o gwynion wedi eu derbyn.

Biniau halen – gan bod y Cyngor nawr yn gyfrifol am y biniau, trafodwyd beth oedd cyflwr y biniau ar hyn o bryd. Pawb yn hapus gyda'r trefniadau.

Baw ci – adroddwyd bod baw ci yn broblem dros yr ardal. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd am gymorth gyda hyn.

Casglu sbwriel – gwirfoddolwyr wedi dod ymlaen sy'n fodlon casglu sbwriel ar hyd y ffordd o Bronydd at Corbri.

Bugail/Setiwr – penderfynwyd bod angen drafftio cytundeb ar gyfer y bugail.